

Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198



Ysgol Bro Alun
Rhodfa Delamere
Gwersyllt
Wrecsam
LL11 4NG
Ffôn: 01978 269580

FFEDERASIWN YSGOL PLAS COCH AC YSGOL BRO ALUN

Mr Osian Jones BA (Pennaeth *Headteacher*)

mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk / mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk

Rhagfyr 13eg 2021

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cefnogaeth a hefyd i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi am drefniadau diwedd y tymor. Mae'r cyfnod hwn yn parhau i fod yn anodd iawn i bawb yn y gymuned ar draws Wrecsam ac fe wyddom oll fod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar sawl agwedd o'n bywydau.

Er ein bod wedi dychwelyd i ddyddu wyneb yn wyneb ddechrau mis Medi, drwy gydol y tymor, mae Covid-19 wedi parhau i amharu ar addysg nifer o ddisgyblion ar draws ysgolion yn Wrecsam wrth i ni geisio rheoli'r effaith mewn sawl ffordd wahanol.

Yn ddiweddar, rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr achosion positif o Covid-19 ymhlith plant ac oedolion ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. O ganlyniad, bu'n rhaid i nifer o blant a phobl ifanc hunanynysu a mynd am brofion PCR. Yn anffodus, wrth i wyliau'r Nadolig nesáu, mae achosion yn parhau i gynyddu. Rydym hefyd yn ymwybodol y byddai unrhyw achosion positif a gaiff eu nodi yn yr wythnos nesaf yn arwain at unigolion yn gorfod hunanynysu dros gyfnod y Nadolig, gan gynnwys Dydd Nadolig. Byddai hyn yn cael effaith enfawr ar ein cymuned.

Mae holl aelodau'r gymuned addysg yn bryderus am y cynnydd yn niferoedd yr achosion a'r effaith mae hyn yn ei gael ar blant a theuluoedd. **O'r herwydd, cytunwyd gyda'r Awdurdod Lleol y bydd dysgu wyneb yn wyneb yn dod i ben i bob disgybl ddiwedd dydd Gwener, 17 Rhagfyr, ac y bydd dysgu ar-lein yn digwydd ar gyfer pob disgybl ar 20, 21 a 22 Rhagfyr.**

Bydd pob ysgol yn sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer dysgwyr diamddiffyn a phlant gweithwyr critigol lle bo angen. **Byddwn yn gyrru gwybodaeth i chi am sut i archebu lle yn y ddarpariaeth cyn gynted a phosib.** Gellir dod o hyd i restr o weithwyr hanfodol yn y canllawiau canlynol- [Adnabod plant gweithwyr hanfodol: canllawiau | LLYW.CYMRU](#). **Gofynnwn i chi beidio â defnyddio'r ddarpariaeth hon oni bai nad oes modd i chi wneud unrhyw drefniadau gofal plant amgen.**

Mae'r awdurdod lleol a chymuned ein hysgol yn ymroddedig i gynnig y ddarpariaeth orau o dan amgylchiadau sy'n gynyddol heriol ac rydym yn deall pa mor bryderus yw'r sefyllfa i chi.

Rwy'n siŵr y byddwch yn ymuno â mi i ddiolch i holl staff yr ysgol sydd wedi gweithio'n ddiflino i roi mesurau cadarn a llym ar waith a gwneud eu gorau glas i ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel. Rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus yn y sefyllfa hon.

Mawr obeithiaf y byddwch i gyd yn mwynhau Nadolig diogel gyda'ch teulu ac y gallwn edrych ymlaen gyda'n gilydd am sefyllfa well yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir

Osian Jones (Pennaeth)